

Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

Tachwedd 2022

Ar 22 Tachwedd 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 13 Ionawr 2023.

